



Chwilio am waith rhan-amser? Dyma rai awgrymiadau ...

Bangor TARGETconnect - ein safle swyddi gwag ar-lein i fyfyrwyr a graddedigion

<https://targetconnect.bangor.ac.uk>

Gellwch chwilio am waith rhan-amser lleol yn ogystal â chyfleoedd eraill fel profiad gwaith a chyflogaeth i raddedigion. Gallwch hefyd sefydlu rhybuddion i'w hysbysu o'r swyddi gwag diweddaraf yn y sectorau rydych chi'n eu dewis.

Mae **Universal Job Match** yn wefan pwysig i chwilio am waith. Gellwch ymuno a sefydlu cyfrif neu chwilio yn ôl lleoliad <https://www.gov.uk/jobsearch>. Dyma wefannau defnyddiol arall:

www.jobswales.co.uk; www.indeed.co.uk a <https://www.totaljobs.com/>

Gwefannau cwmnïau: Darllenwch y tudalennau 'Swyddi neu swyddi gwag' ar gyfer cwmnïau gwerthu cenedlaethol, swyddfeydd llywodraeth leol neu sefydliadau mwy, byddant yn rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. Dyma rhai i'w hystyried: <https://www.jobs.nhs.uk/>; <http://www.tesco-careers.com/> or <http://debenhams-careers.com/>

Ffenestri siopau: Bydd siopau, caffis, tai bwyta a thafarndai lleol yn aml yn rhoi hysbysebion swyddi gwag yn y ffenestri felly mae'n werth cadw golwg ar y Stryd Fawr o bryd i'w gilydd i weld pwy sy'n recriwtio neu gellwch alw heibio i wneud ymholiadau ar hap. Gallent ofyn am CV felly ewch ag ychydig o gopiâu gyda chi.

Llefydd eraill i gael hyd i swyddi lleol:

Asiantaethau Recriwtio: Mae asiantaethau lleol fel Supertemps (www.supertemps.co.uk) a JVP Jobs Online (<http://www.jvpjobs.co.uk>). Asiantaethau cenedlaethol yn cynnwys Randstad (<https://www.randstad.co.uk>) a Hays (<http://jobs.hays.co.uk/jobs-in-North-Wales>) yn cynnig amrywiaeth o swyddi dros dro a pharhaol.

Cyfringau Cymdeithasol: Mae llawer o gyflogwyr yn awr yn troi at Facebook a Twitter i hyrwyddo eu swyddi gwag. Dilynwch y recriwtwyr gennych ddiddordeb mewn i gadw golwg ar unrhyw agoriadau. Gallwch hefyd bostio ar eich cyfrifon eich bod yn chwilio am waith fel y gall eich rhwydwaith rhoi wybod i chi os ydynt yn gweld unrhyw swyddi addas. Mae mwy a mwy o fusnesau yn postio eu swyddi gwag ar grwpiau yn hytrach na thalu am hysbysebion yn y wasg; ymunwch â grwpiau megis 'Ar Werth ym Mangor' i chwilio am swyddi gwag o fewn y grwpiau.

- Peidiwch ag anghofio amdanom ni ar Facebook a dilynwch ni ar Twitter - rydym yn rhannu hysbysebion swyddi yn rheolaidd!

Ymholiadau ar hap - gwnewch adolygiad o'r hyn sydd gennych i'w gynnig, lluniwch eich CV a chysylltu â darpar gyflogwyr. Defnyddiwch eich rhwydwaith personol o gysylltiadau a all wybod am gwmnïau y gellwch anfon ymholiad atynt ar hap.

EICH CV: mae'n bwysig eich bod yn addasu eich CV i bob swydd neu ar gyfer pob 'sector' yr ydych am wneud cais am waith (e.e. un ar gyfer gwaith mewn bar, un arall ar gyfer siopau, un arall ar gyfer gwaith gweinyddol). Am ragor o wybodaeth ewch i: <http://www.bangor.ac.uk/careers/services/application.php.cy>

Os ydych angen cyngor mwy penodol am eich CV neu chwilio am swydd, gwnewch apwyntiad i weld un o'n Cyngorwyr Chyflogadwyedd:

Ffoniwch **01248 382071** neu ewch i <https://www.bangor.ac.uk/careers/index.php.cy>